**Y cam nesaf ar gyfer rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru**

Enw: Gwenith Price, Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg

Sefydliad (os yn berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

Cyfeiriad e-bost: lowri.williams@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch. ☐

C1. Atebwch y cwestiynau canlynol ar gyfer pob un o'r 8 elfen arfaethedig o gam nesaf Sêr Cymru.

C1a. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Gwobrau Adeiladu Capasiti' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

Byddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

| |
|---|
| **Mae adeiladu capasiti ymchwil mewn disgyblaethau sy'n effeithio ar y Gymraeg yn hanfodol er mwyn cyfrannu at hwyluso gweithredu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Gweler ein hymateb i gwestiwn 12 isod am ragor o eglurhad.** |

C1b. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Cymrodoriaethau Rhyngwladol sydd ar ddod' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

Byddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

| |
|---|
| **Buasai'n ddefnyddiol cael mewnbwn rhyngwladol ar ymchwil mewn meysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg.** |

C1c. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Cymrodoriaethau Rhyngwladol Allan' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

Byddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

**Buasai'n ddefnyddiol cael mewnbwn rhyngwladol ar ymchwil mewn meysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn Gadeirydd ar Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith (International Association of Language Commissioners - Home). Buasem yn hapus i hwyluso cyswllt rhwng academyddion o Gymru ag aelodau'r Gymdeithas hon ac yn buddio o gael astudiaethau cymharol o'u gwaith neu'r ieithoedd lleiafrifol a swyddogol maent yn eu cynrychioli.**

C1d. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Cymrodoriaethau Academia Diwydiant' yng ngham nesaf y rhaglen Sêr Cymru?

Byddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

**Buasai'n ddefnyddiol cael mewnbwn rhyngwladol a gweld perthynas academia a diwydiant yng nghyd-destun ymchwil mewn nifer o feysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg. Buasai hyn yn cyfrannu at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Gweler ein hymateb i gwestiwn 12 am ragor o wybodaeth.**

C1e. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Ysgoloriaethau Doethuriaeth' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

Byddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

**Mae adeiladu capasiti ymchwil drwy ysgoloriaethau doethuriaeth yn bwysig mewn disgyblaethau sy'n effeithio ar y Gymraeg, a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Buasai hyn yn cyfrannu at wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Gweler ein hymateb i gwestiwn 12 am ragor o wybodaeth.**

C1f. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Cymrodoriaethau yn Dychwelyd' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

Byddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

**Gweler uchod.**

C1g. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

Byddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

**Credwn fod lle amlwg yng Nghymru i sefydlu rhwydweithiau ymchwil cenedlaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae angen hefyd sicrhau bod rhwydweithiau nad ydynt yn benodol yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystyried y Gymraeg yng nghyd-destun eu gwaith. Gweler ein hymateb i gwestiwn 12 am ragor o eglurhad.**

C1h. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Arian ar gyfer gweithdai a digwyddiadau' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

Byddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

**Mae cyllid ar gyfer gweithdai a digwyddiadau sy'n ymwneud ag ymchwil ar y Gymraeg yn hanfodol. Gweler ein hymateb i gwestiwn 12 am ragor o wybodaeth.**

C2. Ble fyddech chi'n gosod pob un o'r elfennau? Nodwch rif rhwng 1 ac 8, lle mae 1 = prif flaenoriaeth ac 8 = blaenoriaeth isaf.

Rhowch rif gwahanol ar gyfer pob elfen.

| **Elfen o gyfnod newydd** | **Rhif (1 i 8)** |
|---|---|
| Gwobrau Adeiladu Capasiti | |
| Cymrodoriaeth Rhyngwladol sydd ar Ddod | |
| Cymrodoriaeth Rhyngwladol Allan | |
| Cymrodoriaethau Cenedlaethol a Rhyngwladol Academia Diwydiant | |
| Ysgoloriaeth Doethuriaeth | |
| Rhaglen Cymrodoriaeth yn Dychwelyd | |
| Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaesthol | |
| Cyllid ar gyfer gweithdai a digwyddiadau | |

C3. A ydych chi'n teimlo bod unrhyw elfennau ar goll o'r rhaglen ariannu arfaethedig?

Ydw
Nac ydw

Os ydych chi’n ateb ydw, esboniwch beth rydych chi'n teimlo sydd ar goll ymhellach os gallwch chi.

| |
|---|
| **Dim sylw.** |

C4. A fyddech chi'n ei chael hi'n fuddiol cael yr opsiwn i gynnig prosiect graddol, gan ymgorffori nifer o'r adrannau uchod?

Byddwn
Na fyddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi.

| |
|---|
| **Dim sylw.** |

C5. A ydych yn cytuno â 'Sefydliad Cenedlaethol Astudiaethau Uwch Sêr Cymru' neu 'Sêr Cymru IV' fel teitl arfaethedig cam nesaf y rhaglen?

Sefydliad Cenedlaethol Astudiaethau Uwch Sêr Cymru
Sêr Cymru IV

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi.

| |
|---|
| **Ni fyddai gennym wrthwynebiad i hyn.** |

C6. A ydych chi'n cytuno y dylai canlyniad arfaethedig gael ei wella ar y cyd?

Ydw
Nac ydw

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi.

| |
|---|
| **Dim sylw.** |

C7. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r themâu eang arfaethedig ar gyfer y rhaglen newydd, y manylir arnynt isod:

**Themâu eang:**

- gwyddorau bywyd
- iechyd a gofal cymdeithasol
- carbon isel a Sero Net

- ynni
- yr amgylchedd a defnydd tir
- morol a physgodfeydd
- bioamrywiaeth
- peirianneg
- twristiaeth, chwaraeon, celfyddydau

Themâu trawsbynciol:

- gwyddorau cymdeithasol
- digidol
- y Gymraeg
- lles

C7a. Ble byddech chi'n graddio pob un o'r themâu eang? Nodwch rif rhwng 1 a 9, (1 = prif flaenoriaeth ac 9 = blaenoriaeth isaf). Rhowch rif gwahanol ar gyfer pob elfen.

| **Themâu** | **Rhif (1 i 9)** |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | |
| Ynni | |
| Peirianneg | |
| Yr amgylchedd a defnydd tir | |
| Iechyd a gofal cymdeithasol | |
| Gwyddorau bywyd | |
| Carbon isel a sero net | |
| Morol a physgodfeydd | |
| Twristiaeth, chwaraeon, celfyddydau | |

C7b. A ydych chi'n cytuno â'r themâu trawsbynciol?

Ydw

Nac ydw

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi.

| |
|---|
| **Gweler ein hymateb i gwestiwn 12 isod.** |

C7c. A ydych chi'n teimlo bod unrhyw themâu ar goll (cyffredinol neu drawsbynciol)?

Ydw

Nac ydw

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi.

**Gweler ein hymateb i gwestiwn 12. Credwn fod peth aneglurder ynghylch y berthynas rhwng themâu trawsbynciol ac eang. Gall a dylai’r Gymraeg fod yn thema eang a thrawsbynciol.**

C8. Pa fecanweithiau y gallem ni eu sefydlu i wneud cyfleoedd cyllido Sêr Cymru yn fwy deniadol a hygyrch i ystod amrywiol o ymgeiswyr?

**Dim sylw.**

C9. A oes unrhyw beth arall y dymunwch roi adborth arnynt o ran y rhaglen ariannu arfaethedig?

**Gweler ein hymateb i gwestiwn 12 isod.**

C10. Pa grŵp rhanddeiliaid ydych chi’n ei gynrychioli yn eich barn chi:

**Y sector cyhoeddus.**

C11: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai y cam nesaf ar gyfer rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi’n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

**Gweler ein hymateb i gwestiwn 12 isod.**

C12: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi’n credu y gall y polisi arfaethedig 'y cam nesaf ar gyfer rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: [cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif nod statudol y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg. Gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg yw Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg. Mae’r Comisiynydd yn goruchwylio cydymffurfiaeth cyrff cyhoeddus â

safonau'r Gymraeg ac yn gweithio gyda chyrff o'r trydydd sector a'r sector preifat i hybu eu defnydd o'r iaith. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth. Byddwn hefyd yn cynnig cyngor i unigolion a sefydliadau o bob math ar ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Mae gennym ni hefyd gyfrifoldeb statudol penodol i gyhoeddi adroddiad pob pum mlynedd yn amlinellu sefyllfa'r Gymraeg (Sefyllfa'r Gymraeg 2016–20 (comisiynyddygymraeg.cymru)). Er mwyn cyflawni'r gweithgareddau hyn byddwn yn defnyddio ymchwil am y Gymraeg ac yn comisiynu ymchwil lle bo hynny'n bosibl. Ond mae gallu cyfeirio at ymchwil academaidd annibynnol am y Gymraeg yn hollbwysig hefyd, fel y pwysleisiwyd ar dudalen 294 adroddiad 5-mlynedd y Comisiynydd. Anogwn chi i ystyried gasgliadau'r Comisiynydd yn yr adroddiad bod angen cyllido rhagor o waith ymchwil annibynnol am y Gymraeg, a'r rhybuddion a geir yno am effaith diffyg ffrydiau ariannu pwrpasol ar gyfer y Gymraeg. Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn felly yn benodol yn ymwneud ag effaith rhaglen ariannu Sêr Cymru ar y Gymraeg. Ein prif ddiddordeb yw sicrhau bod ymchwil am y Gymraeg yn digwydd ar draws pob disgyblaeth a maes sy'n effeithio ar gyfleoedd i ddysgu, defnyddio'r Gymraeg a galluogi pobl i fyw eu bywydau yn y Gymraeg.

Mae'n gadarnhaol fod y Gymraeg yn thema trawsbynciol ar gyfer cam nesaf Sêr Cymru. Gwelwn fod y Gymraeg yn berthnasol i bob un o'r themâu eang a gynigir yn ogystal. Nid yw'n glir inni fodd bynnag beth mae hynny yn ei olygu yn ymarferol i natur y prosiectau arfaethedig a ariennir gan raglen Sêr Cymru a beth yw'r gwahaniaeth rhwng thema eang a thema trawsbynciol. Buasem yn dadlau fod y Gymraeg hefyd yn thema eang gan ei bod yn cwmpasu cynifer o feysydd perthnasol. Credwn y buasai'n fuddiol egluro'r gwahaniaeth hwn wrth ddatblygu'r rhaglen. Mae angen sicrhau bod ymchwil penodol yn digwydd am y Gymraeg o fewn y meysydd eang a thrawsbynciol y cyfeirir atynt, ac nad ystyriaeth eilaidd neu ganlyniadol i ymchwil a wneir o dan raglen Sêr Cymru yw'r Gymraeg. Yn syml, mae angen llawer mwy o ymchwil am y Gymraeg a nifer fawr o themâu'r cynllun, mae'r rhain yn cynnwys:

- iechyd a gofal cymdeithasol, lles, e.e.
    - dulliau asesu safonol ar gyfer siaradwyr dwyieithog mewn cyflyrau iechyd gwahanol, e.e. dementia, iechyd meddwl, strôc.
    - dulliau ac adnoddau i drin siaradwyr amlieithog sydd â chyflyrau iechyd gwahanol
    - trefniadau cynllunio a darparu gofal mewn cyd-destunau lle gellir darparu gofal yn y Gymraeg ac yn amlieithog
- carbon isel a Sero Net, ynni, yr amgylchedd a defnydd tir, bioamrywiaeth, morol a physgodfeydd, e.e.
    - perthynas amaethu, defnydd tir, y môr a chymunedau lle siaredir y Gymraeg
    - datgarboneiddio a chyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn mannau gwledig
    - y Gymraeg a'r economi werdd
- twristiaeth, chwaraeon, celfyddydau
    - effaith twristiaeth ar gymunedau a'r Gymraeg,
    - cyfleoedd i'r Gymraeg ffynnu yn sgil twristiaeth gynaliadwy

  - hyrwyddo’r Gymraeg drwy chwaraeon a’r celfyddydau
  - sut gall y maes chwaraeon a’r celfyddydau hyrwyddo’r Gymraeg
- gwyddorau cymdeithasol
  - Mae cyfleoedd di ben draw ar gyfer ymchwil ar y Gymraeg a’r gwyddorau cymdeithasol gan gynnwys astudiaethau sosioieithyddol ynghylch y Gymraeg a chynllunio ieithyddol. Gweler Strategaeth Cymraeg 2050 a’n sylwadau isod yn hyn o beth.
  - cyfraniad y Gymraeg at economi Cymru, gweler adran 6 [Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru lle nodir enghreifftiau penodol o feysydd posibl ar gyfer ymchwil yn y dyfodol
  - effaith economi Cymru ar hyfywedd y Gymraeg, gweler adran 6 [Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru lle nodir enghreifftiau penodol o feysydd posibl ar gyfer ymchwil yn y dyfodol
  - prif ffrydio’r Gymraeg mewn mentrau economaidd
  - y Gymraeg a'r gyfraith
  - y Gymraeg yn y drefn gynllunio
  - dulliau dysgu’r Gymraeg gan gynnwys addysg drochi a Chymraeg i ddysgwyr newydd, drwy dechnoleg ac fel arall
  - mentrau hyrwyddo’r Gymraeg yn gymunedol gan gynnwys datblygu cymunedol arloesol sydd â’r sgil effaith o gynnal y Gymraeg yn gymunedol
  - dulliau arloesol o gynllunio gweithleoedd a gweithluoedd Cymraeg a dwyieithog
  - ymchwil geiriadurol, ac ar enwau lleoedd
- Digidol
  - Ymchwil i hwyluso gweithrediad Cynllun gweithredu ar gyfer technoleg Cymraeg a chyfryngau digidol Llywodraeth Cymru
  - Datblygu technolegau digidol i hwyluso dysgu’r Gymraeg
  - Technolegau amlieithog i hwyluso defnyddio’r Gymraeg ac ieithoedd eraill
  - Technoleg i gefnogi darparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn ddwy ac amlieithog
  - Deallusrwydd artiffisial a’r Gymraeg
  - Technegau economeg ymddygiadol.
  - Gweler [Cynllun gweithredu technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru] am enghreifftiau niferus o feysydd ymchwil perthnasol a adnabuwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ei hanfod, dylai rhaglen gyllid ar gyfer ymchwil Sêr Cymru gyllido prosiectau sy’n gydnaws ac yn hwyluso amcanion Llywodraeth Cymru yn Strategaeth Cymraeg 2050 sef cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a chynyddu’r nifer o bobl sy’n ei defnyddio yn ddyddiol erbyn 2050. Buasai hyn yn gyson â nod y Strategaeth ‘Er mwyn gallu mesur effeithiolrwydd ein hymyriadau a datblygu polisi yn y dyfodol ar sail tystiolaeth, mae’n hanfodol ein bod yn parhau i ddatblygu ein rhaglen ymchwil a gwerthuso ar gyfer y Gymraeg. Byddwn yn gwneud hyn drwy gydweithio â phartneriaid ymchwil yng Nghymru a thu hwnt’ (tud. 59). Mae [Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg (llyw.cymru)] a luniwyd ar gyfer

| |
|---|
| strategaeth iaith flaenorol Llywodraeth Cymru (*Iaith fyw iaith byw*) hefyd yn cydnabod na 'ddylai'r gwaith o werthuso'r Strategaeth fod yn fater i Lywodraeth Cymru'n unig ond dylid ei rannu gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr iaith' (t. 2). Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael ymchwil ac arweiniad annibynnol a hyd braich o Lywodraeth ar weithrediad Strategaeth 2050. Rydym felly yn argymell eich bod yn trafod y rhaglen hon gydag is-adran y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru a'r ymchwilwyr i'r iaith Gymraeg yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru oherwydd eu harbenigedd yn y maes.<br><br>Dylai'r rhaglen adlewyrchu Cymru fel gwlad ddwyieithog. Gall ymchwil arloesol ar y Gymraeg yng Nghymru gael ei rhannu yn rhyngwladol i hyrwyddo'r defnydd o ieithoedd eraill mewn byd amlieithog. Buasem yn barod i drafod sut y gall Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith weithredu fel fforwm i gyfrannu at neu rannu ymchwil perthnasol er mwyn sicrhau bod ymchwil a ariennir yn cael traweffaith. Dylai'r rhaglen hefyd ariannu ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr holl amryfal feysydd y mae'n arfaethu eu cefnogi, a hynny yn gyson ag amcan Strategaeth Cymraeg 2050 'Rydym yn cydnabod bod angen o hyd i ddatblygu capasiti ac arbenigedd i wneud gwaith ymchwil am y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg' (tud. 77). Mae'n hollbwysig fod y rhaglen yn cefnogi ac yn hwyluso'r gofyn sydd ar sefydliadau yng Nghymru i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a bwriadau Mesur y Gymraeg, ac na fydd yn tanseilio'r bwriadau hynny. Buasem yn fwy na pharod i drafod sut y byddai modd i swyddfa'r Comisiynydd gyfrannu at astudiaethau perthnasol.<br><br>Rydym yn argymell hefyd eich bod yn trafod y rhaglen arfaethedig â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol oherwydd ei swyddogaeth yn hyrwyddo'r Gymraeg ym maes addysg uwch ac addysg bellach. Mae hynny yn cynnwys ariannu, datblygu a hyfforddi darlithwyr cyfrwng Cymraeg ac ariannu ysgoloriaethau israddedig ac ôl-raddedig. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae'r Ddeddf yn cadarnhau bod rhaid i'r Comisiwn 'hybu.... gwneud gwaith ymchwil ac arloesi a gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaith ymchwil ac arloesi gan bersonau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg' (Rhan 1, 6(1) (d)). Wrth sefydlu rhaglen Sêr Cymru felly credwn fod angen rhoi sylw i'r gofyniad hwn fydd ar y Comisiwn, a dylid datblygu'r rhaglen yn unol â hynny. |
| |

C13: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

| |
|---|
| |